

Enw Myfyriwr: Elizabeth Evans

Rhif Myfyriwr: 1001008

Teitl yr Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Llwybr: TAR Cynradd

Linc i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1001008_student_uowtsd_ac_uk/EvbibGQlkmZEtZ5BJMIPj28BIQYbzNPmHKTM-IS9KwjAqA?e=LrmY2k

Targedau o'r aseiniad blaenorol:

1. Dylid ystyried plethu'r drafodaeth am yr achos critigol drwyddi draw, yn hytrach na thrafod yn gyffredinol heb amlygu pam fod hyn yn berthnasol i'r arsylwad. Bydd hyn yn fodd o godi'r radd o fewn sawl adran yn yr aseiniad, gan gynnwys Gwybodaeth a Dealltwriaeth; Sgiliau Gwybyddol a Deallusol; a'r adran Sgiliau Cymhwyso Ymarferol. **Dydy defnyddio a dadansoddi llenyddiaeth ddim yn dod yn naturiol i fi. Rwyf yn cydnabod bod hwn yn agwedd fwy gwan yn fy ngwaith, a byddaf yn gwneud ymdrech i wella hwn trwy ddarllen ymchwiliadau ac erthyglau.**
2. Mae'r gwaith darllen yn dda iawn, a bydd gofal pellach wrth gyfeirnod (e.e. wrth dyfynnu'n eilaidd a nodi enwau awduron) yn fodd o godi'r radd ymhellach. **Rwyf wedi gwneud ymdrech i ddefnyddio tystiolaeth eilaidd yn yr aseiniad yma o ganlyniad i'r adborth diwethaf.**
3. Mae'r marcio ar adborth wedi amlygu rhai gwallau iaith cyson. Rwyf yn defnyddio Cysill yn gyson, ond yn ymwybodol bod y rhaglen ddim yn codi pob gwall iaith. Rwyf wedi nodi gwallau cyson yn yr aseiniad diwethaf, a gwneud ymdrech i beidio ail-adrodd y rhain.

Saturday, November 16, 2019 10:35 AM

[illegible]ECAD6008 Page 2

2. **Enghraifft 2: Adran Cyfnod Sylfaen. Blwyddyn 1 / 2.** Gwers dosbarth cyfan. Prynhawn y 7fed o Dachwedd 2019.


Ffocws y wers oedd Sul y Cofio – roedd rhaid labeli lluniau oedd yn ymwneud gyda Sul y Cofio e.e. pabi coch, cofgolofn, milwr, croes.

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cynnig arghymhell bod angen "...hyrwyddo'r defnydd o amrywiaeth fawr o dechnegau..." wrth asesu (Llywodraeth Cymru, 2015a, t. 74).

Ar ôl gorffen y dasg, roedd rhaid i ddysgwyr hunan asesu trwy lenwi 'slip' hunan asesu'r Cyfnod Sylfaen sydd gyda, ffurfio, bili bys, prif lythyren, ac atalnod llawn arno. Mae'r dysgwyr yn lliwio'r bocs gyda gwyrdd, melyn neu goch i hunan asesu os ydyn nhw wedi gwneud yn dda, neu yn gallu gwella ar y sgiliau yma.

Mae'r strategaeth yma yn cael eu defnyddio' gyson yn yr ysgol yn barod, y rheswm dros ddewis strategaeth hunan asesu, yw cael dysgwyr i ddechrau meddwl a myfyrion ar eu gwaith, ac i ddechrau edrych ar ba sgil sydd angen gwella. Mae'r dysgwr yn medru dewis un elfen, neu sawl elfen o'i waith i geisio gwella y tro nesaf.

Roedd rhan fwyaf o blant wedi cyflawni'r hunan asesu, wrth edrych yn ôl ar y wers, ac ar y slipiau hunan asesu, mae'n glir bod rhai dysgwyr ddim wedi deall pwysigrwydd y lliwiau. Y tro nesaf, fe fydd rhaid pwysleisio'r lliwiau gwahanol i ddangos yr ystyr gwahanol. Gallwn wneud hyn trwy roi adnodd gweledol ar y bwrdd, e.e. trwy oleuadau traffig, neu wynebau hapus.



3. **Enghraifft 3: Adran Cyfnod Sylfaen. Blwyddyn 1 / 2.** Gwers dosbarth cyfan. Pryhawn y 19eg o Dachwedd 2019.


Ffocws y wers oedd Diogelwch y Ffordd (Personol, cymdeithasol a lles)

Pwrpas y wers oedd addysgu'r dysgwyr am gadw'n ddiogel ar y ffordd. Roedd hi'n Wythnos diogelwch y Ffordd ar draws Prydain. Roedd y dysgwyr wedi cynhyrchu poster diogelwch y ffordd, gydag arwyddion a brawddegau. Yn ogystal â hyn, roedd pob dysgwr wedi cael cyfle i wneud gweithgareddau ymarferol tu fas ynglŷn â diogelwch y ffordd. Roedd cyfle i blant dysgu trwy chwarae rôl benodol.

Awgryma Hattie a Yates (2014, t. 70) bod adborth cyfoedion yn gallu bod yn gwerthfawr iawn, ac yn gallu cynnal cyfleoedd dysgu.

Ar ddiwedd y poster roedd gweithgaredd asesu cyfoedion, yn defnyddio asesu yn ôl goleuadau traffig – er mwyn cadw gyda thema'r wers. Penderfynais ar y strategaeth yma am fod y dysgwyr yn mwynhau cydweithio a derbyn adborth o'i gyfoedion, fel yn y wers Wrth Fwlio, ac er bod nhw wedi asesu cyfoedion ar lafar, roedd cyfle i ddysgwyr gwneud yn ysgrifenedig, ac yn weladwy.

Yr oedran yma, roedd yn eithaf amlwg bod dysgwyr yn dewis ei ffrindiau i asesu eu gwaith, felly y tro nesaf, efallai bydd ffyn loli yn helpu dysgwyr i fynd at ddysgwyr gwahanol o fewn eu dosbarth.



4. **Enghraifft 4: Adran Cyfnod Sylfaen. Blwyddyn 1 / 2.** Gwers dosbarth cyfan. Prynhawn y 3ydd o Ragfyr 2019.

Ffocws y wers oedd Hanes a Dathliad Yr Adfent (thema Nadoligaidd).

Yn ystod y cyflwyniad, defnyddiais y strategaeth **meddwl, paru, rhannu** er mwyn annog i'r dysgwyr meddwl am wybodaeth maent yn gwybod yn barod, trafod hyn gyda chyfoed, ac yna rhannu gyda'r dosbarth. Teimlaf fod y strategaeth wedi gweithio'n llwyddiannus, ac roedd pawb wedi cymryd rhan yn y strategaeth. Ar ol ddefnyddio'r strategaeth, roedd rhaid defnyddio sgiliau rheoli ymddygiad, oherwydd roedd y dysgwyr wedi cynhyrfu, ac eisiau siarad yn ymhellach am eu profiadau. Wrth ddefnyddio'r strategaeth yn fwy gyson, fe fydd dysgwyr yn dod i'r arfer o'r gyfarwyddiadau, a phryd i ymateb. Wrth gynllunio gwersi eraill, byddaf yn hyderus i ddefnyddio'r strategaeth yma gyda dysgwyr.

Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Cwestiwn allweddol 'A oes rhywun wedi clywed am y gair Adfent?' 'A oes unrhyw un yn gallu esbonio beth mae'n meddwl?' Eistedd, gwrando ac ymateb i stori'r Adfent ar bwerbwynt ar y teledu rhyngweithiol Adeiladu ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr ar y Cristingl Cynnal trafodaeth am yr Adfent, a chysylltu gydag Adfent yn y tŷ ar Cristingl	Trafod gyda phartner am y cwestiynau allweddol. (Strategaeth: Meddwl, paru, rhannu) Cynnig atebion i'r cwestiynau allweddol. Gwrando ar stori'r Adfent ac ateb cwestiynau a chynnal trafodaeth fel dosbarth. Adeiladu ar wybodaeth flaenorol a phrofiadau eu hunain e.e. Adfent yn y tŷ / corrach yn ymddangos	Pwerbwynt Twinkl Adfent Ardal carped Teledu Rhyngweithiol hiol
---	---	--	---

Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu)	Fe aeth y cyflwyniad yn dda, roedd dysgwyr yn cynnig atebion, ac yn adeiladu ar eu profiadau blaenorol trwy'r strategaeth meddwl, paru, rhannu. Roedd rhai yn siarad am gorrach oedd yn y tŷ, ar galendrau siocled oedd gyda nhw.
--	--

dros amser)

Ar weithgareddau, roedd pawb i weld yn mwynhau, yn enwedig y gweithgareddau mwy ymarferol fel y Cristingl a'r corrach. Roedd rhai dysgwyr wedi gweld y creu silff i Wilff yn anodd, efallai nad oeddent yn gyfarwydd gyda defnyddio'r defnyddiau yma. Efallai gweld os yw Lego neu ryw fath o offer adeiladu yn well y tro nesaf. Roedd pawb wedi llwyddo i wneud calendr Adfent a Chorrach.

1. **Enghraifft 1: Adran Cyfnod Sylfaen. Blwyddyn 1 / 2.** Gwers dosbarth cyfan. Prynhawn y 5ed o Dachwedd 2019.



Ffocws y wers oedd Dathlu Noson Tân Gwyllt.

Wrth siarad gyda'r athrawes dosbarth, teimlwn fod hwn yn wers dda i wneud yn drawsgwricwlaidd, am fod sgôp i ddatblygu amryw o sgiliau drwy ddathlu Noson Tân Gwyllt. Dylanwad ar y wers oedd y pwysigrwydd i blethu sgiliau trawsgwricwlaidd i mewn i wersi thema, fel bod y sgiliau yma yn cael eu hyrwyddo a'i wneud yn hwylus wrth ddysgu. Mae Timmerman (2017, t. 2) yn dadlau bod angen i ysgolion paratoi dysgwyr am gymhlethdod y byd, ac un ffordd o wneud hwn yw trwy wersi trawsgwricwlaidd sy'n annog sgiliau datrys problem, ac edrych o bersbectif gwahanol.

Wrth adfyfrio, ni weithiodd y cylchdroi fel oeddwn yn bwriadu. Roedd y tasgau llythrennedd a rhifedd o fewn y wers wedi cymryd amser i'r dysgwyr, felly roedd rhaid cylchdroi mewn ffordd wahanol, ac roedd rhaid gorffen rhai o'r tasgau'r diwrnod wedyn.

Roedd y dasg rhifedd wedi cael eu gwahaniaethu, er hyn, roedd rhai dysgwyr wedi ffeindio'n heriol. Roedd y dasg llythrennedd hefyd wedi gwahaniaethu, ond cymerodd y dasg yma amser i gyflawni. Ers gwneud y wers yma, rwyf wedi dysgu mwy am ystyr trawsgwricwlaidd, ac yn fwy ymwybodol o'r gofynion o blethu mewn i wersi. Mae'r elfen llythrennedd o'r wers yn gallu dod o drafodaeth lafar, fideo o'r plant yn siarad am y wers, defnyddio geirfa benodol, brawddegau penodol. Yn symud ymlaen, byddaf yn ffocysu ar un sgil trawsgwricwlaidd penodol o fewn y wers, e.e. llythrennedd, ac fe fydd gweithgareddau arall yn fwy ymarferol.





2. Enghraifft 2: Adran Cyfnod Sylfaen, Blwyddyn 1 / 2. Gwers dosbarth cyfan, bore'r 15fed o Dachwedd 2019.

Ffocws y wers oedd dathlu diwrnod Plant Mewn Angen.

Penderfynais gyda'r mentor dosbarth, i wneud yn drawsgwricwlaidd er mwyn hyrwyddo nifer o sgiliau gwahanol. Caiff y plant cyffro, a hwyl trwy ddysgu, ac roedd yn siawns da i blethu sgiliau trawsgwricwlaidd o dan thema benodol.

Teimlaf fod elfennau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi gweithio yn llwyddiannus, teimlaf fy mod i wedi dysgu o'r wers ddiwethaf, a chynllunio gwers fwy ymarferol gall cylchdroi, rheoli ac amseru yn well.

Mae'r adfyfrio o'r wers yn dangos bod rhai dysgwyr wedi gweld y gweithgaredd poser a chreu patrwm yn eithaf heriol, er hyn roedd bron pawb wedi llwyddo i ryw safon ym mhob gweithgaredd.

Wrth adfyfrio yn gritigol ar y sgil cymhwysedd digidol, roedd y dysgwyr wedi drysu ar sut i arbed eu gwaith ar yr App Doodle Buddy. Dangosais sut i arbed eu lluniau yn ystod y cyflwyniad, ond roedd hi'n amlwg bod angen mwy o fewnbwn, neu fodelu yn fwy ar sut i arbed y gwaith. Y tro nesaf byddwn yn rhoi oedolyn i gynorthwyo'r dasg, neu fodelu yn fwy clir, a thra bod nhw ar dasg





3. Enghraifft 3: Adran Cyfnod Sylfaen, Blwyddyn 1 / 2. Gwers dosbarth cyfan, prynhawn y 3ydd o Ragfyr 2019.

Ffocws y wers oedd Hanes a Dathliad Yr Adfent (thema Nadoligaidd).

Roedd y thema yma yn siawns dda i wneud thema drawsgwricwlaidd. Gwelais fod modd dod a rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol i mewn i'r wers yma, ynglŷn â dysgu am Yr Adfent.

Dylanwad y wers oedd edrych ar sut yr ydym yn dathlu Yr Adfent, a beth yw'r arwyddocâd, yn y gorffennol, ac yn amseroedd mwy modern. Edrychion ni ar y calendr Adfent, canhwylau yn yr Eglwys, y Cristingl a chorachod (Wilff ar y Silff).

Mae'r ddogfen yn nodi bod angen dysgu ac addysgu trawsgwricwlaidd i fod yn naturiol ac yn ddilys (Llywodraeth Cymru, 2015a, t. 68).

Teimlwn fod yr elfennau trawsgwricwlaidd yn gweithio'n dda yn y wers yma. Roedd y cyd-destun yn gweithio'n dda i hyrwyddo'r elfennau yma. Roedd yr elfen rhifedd yn dod yn naturiol wrth greu Adfent, datblygon nhw sgiliau cymhwysedd digidol trwy greu lluniau Nadoligaidd, a ddaeth y sgil llythrennedd o'r drafodaeth ar iaith ddefnyddio'n ni trwy gydol y wers.

Ni chynlluniwyd tasg llythrennedd penodol i'r wers yma, ddaeth y sgil llythrennedd o'r cyflwyniad ar drafodaeth yn ystod y wers. O ganlyniad i hyn, roedd ymateb y plant i'r cwestiynau allweddol neu brif bwrpas y wers fach yn siomedig, ac nid oeddwn wedi cael yr ymateb roeddwn i'n disgwyl. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth bendant y tro nesaf, byddwn yn cwestiynu'r dysgwyr trwy gydol y wers, a chymryd seibiant o'r gweithgareddau i ail-gyflwyno prif ystyr y wers.

Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Cwestiwn allweddol 'A oes rhywun wedi clywed am y gair Adfent?' 'A oes unrhyw un yn gallu esbonio beth mae'n meddwl?' Eistedd, gwrando ac ymateb i stori'r Adfent ar bwerbwynt ar y teledu rhyngweithiol Adeiladu ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr ar y Cristingl Cynnal trafodaeth am yr Adfent, a chysylltu gydag Adfent yn y tŷ ar Cristingl	Trafod gyda phartner am y cwestiynau allweddol. (Strategaeth: Meddwl, paru, rhannu) Cynnig atebion i'r cwestiynau allweddol. Gwrando ar stori'r Adfent ac ateb cwestiynau a chynnal trafodaeth fel dosbarth. Adeiladu ar wybodaeth flaenorol a phrofiadau eu hunain e.e. Adfent yn y tŷ / corrach yn ymddangos	Pwerbwynt Twinkl Adfent Ardal carped Teledu Rhyngweith iol
---	---	--	---

Sesiwn Gloi	Cyfeirio yn ôl at y cwestiynau allweddol. Holi cwestiynau i'r dysgwyr am sut yr ydym yn dathlu'r Adfent. Cuddio corrach yn y dosbarth, i'r dysgwyr cael	Dweud sut yr ydym yn dathlu'r Adfent, Chwilio am gorrach	Corrach
---------------------------	--	--	----------------

Meysydd ar
gyfer fy
Natblygiad

Targedau
Personol ar
gyfer Cynnydd

Fy mwriad oedd cael dygwyr i siarad mewn i Ap Seesaw am y Cristingl wrth greu, neu wrth orffen y dasg. Ni ddigwyddodd hon, rheswm am hyn oedd bod llawer o bethau ymarferol yn digwydd yn y dosbarth, a doedd hi ddim yn bosib cynorthwyo'r gweithgareddau a ffilmio'r dysgwyr. Rhaid i fi feddwl am beth allai gyflawni wrth gynllunio.

Wrth weithredu cloi'r wers, roedd rhai dysgwyr ddim yn sicr o sut yr ydym yn dathlu'r Adfent, felly – adborth y mentor – oedd mynd dros y cyflwyniad eto, er mwyn sicrhau dealltwriaeth.

Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

1. Enghraifft 1: Adran Cyfnod Sylfaen. Blwyddyn 1 / 2. Gwers dosbarth cyfan. Prynhawn y 28ain o Dachwedd.

Ffocws y wers oedd Mathemateg – Bondiau Rhif.

Mae Hattie a Yates (2014, t. 114) yn dweud bod hi'n hawsach i adeiladu ar wybodaeth mae'r dysgwr yn adnabod yn barod, yn hytrach na dechrau rhywbeth newydd.

Ar ddechrau'r adran yma o addysgu, cynlluniais wers grŵp yn ffocysu ar fondiau rhif. Yn yr wythnos olaf o addysgu, cynlluniais wers dosbarth cyfan sy'n adeiladu ar y sgil yma. Roedd y dysgwyr yn medru adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol, ac roedd modd gwahaniaethu'r gwaith ac adeiladu ar sgiliau penodol. Dewisais adnoddau ymarferol er mwyn ennyn diddordeb a gwneud yn fwy hwylus iddynt. Roedd y wers yn cylchdroi er mwyn i ddysgwyr derbyn amryw o weithgareddau a sgiliau.

Ni weithiodd un dasg bondiau rhif fel oeddwn yn dymuno. Roedd y dysgwyr wedi drysu ychydig gyda chreu bondiau i ddeg gyda chiwbiau cyswllt, ac roedd nifer wedi 'chwarae' yn lle dilyn cyfarwyddiadau'r dasg. Yn dilyn y wers yma, byddwn yn sicrhau bod pawb yn deall y dasg, ennyn diddordeb yn fwy trwy greu sialens, a rhoi adnoddau gweledol i gynorthwyo'r dasg.



2. Enghraifft 2: Adran Cyfnod Sylfaen. Blwyddyn 1 / 2. Gwers dosbarth cyfan. Prynhawn y 3ydd o Ragfyr. Ffocws y wers oedd Dathliad Yr Adfent a Nadolig.

Roedd y dysgwyr wedi bod yn dysgu am Y Gristingl gyda'r goruchwylydd dysgu, sydd yn dysgu'r dosbarth am hanner diwrnod yr wythnos, ac yn cynllunio gwaith eu hunain. Roedd y dysgwyr wedi ymateb yn dda i'r

wers, ac roedd diddordeb gyda nhw wrth ddysgu am Y Gristingl. Wrth gynllunio gwers Nadoligaidd, penderfynais adeiladu ar y diddordeb yma trwy gael y dysgwyr i greu Gristingl o does, ac i ddathlu'r Adfent trwy edrych ar galendr a chorachod. Cynlluniais dasgau hwylus ac ymarferol er mwyn ennyn diddordeb y dysgwyr. O ganlyniad i'r wers yma, byddaf yn ceisio trafod beth sydd o ddiddordeb gyda nhw, a beth hoffan nhw ddysgu, trwy ddefnyddio llais y disgybl wrth gynllunio. Mae Estyn yn nodi bod cyfraniad dysgwyr yn golygu dysgwyr yn ymrwymo'n fwy llwyddiannus yn eu gwaith (Estyn, 2019b).

Addysgu a Dysgu Craidd	Tasg Miss Evans - Tasg Creu Cristingl - arwain a rhoi cymorth os oes angen, dylai dysgwyr medru greu Cristingl yn eithaf annibynnol. Recordio dysgwyr yn siarad am nodweddion y Cristingl ar Ap Seesaw ar Ipad yr athrawes dosbarth. Tasg Mrs Thurlow – Creu Addurn Corrach. Mrs Thurlow i arwain tasg creu addurn corrach Chwarae cerddoriaeth Nadolig yn y cefndir er mwyn creu naws Nadoligaidd	1. Ipad - App Doodle Buddy - creu lluniau Nadoligaidd e.e. Siôn corn, coeden, cristingl, 5 kannwyll, corrach 2. Creu Cristingl - creu Cristingl o does, gan gofio nodweddion e.e. 4 tymor (ffyn loli) bwyd/ffrwyth (marshmallows), rhuban coch a channwyll 3. Creu Silff i Wilff - creu silff gan ddefnyddio ffyn loli a thoes. 4. Creu Adfent Nadolig – adnabod ac ysgrifennu rhifau i greu Adfent er mwyn cyfri lawr at Nadolig. 5. Creu addurn corrach - lliwio a thorri corrach a gludo eu hwyneb ar y corrach i wneud addurn Nadolig *Gweithgareddau yn cylchdroi trwy'r wers. Ymestynnol – dylunio siwmpwr Nadolig / lliwio llun coeden Nadolig	Ipad - llun o'r ap Lluniau Nadolig e.e. coeden, Siôn corn, celyn, torch Ipad yr athrawes (Seesaw) Toes oren, ffyn loli, canhwyllau, marshmallows Taflenni creu calendr Adfent Pensiliau Peniau ffelt Ardal carped Toes a ffyn loli, lluniau corachod Corachod ar gard gwyn Lluniau bach o wynebau'r dysgwyr, llinyn Taflenni dylunio siwmpwr Nadolig a choeden Nadolig Caneuon / cerddoriaeth Nadoligaidd ar Youtube
--------------------------------------	--	--	--

hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu

Tystiolaeth o
Ddysgu (gan
gynnwys agwedd
at ddysgu dros
amser)

Fe aeth y cyflwyniad yn dda, roedd dysgwyr yn cynnig atebion, ac yn adeiladu ar eu profiadau blaenorol. Roedd rhai yn siarad am gorrach oedd yn y tŷ, ar galendrau siocled oedd gyda nhw. **Ar weithgareddau, roedd pawb i weld yn mwynhau, yn enwedig y gweithgareddau mwy ymarferol fel y Cristingl a'r corrach.** Roedd rhai dysgwyr wedi gweld y creu silff i Wilff yn anodd, efallai nad oeddent yn gyfarwydd gyda defnyddio'r defnyddiau yma. Efallai gweld os yw Lego neu ryw fath o offer adeiladu yn well y tro nesaf. Roedd pawb wedi llwyddo i wneud calendr Adfent a Chorrach.

Y Camau Nesaf
ar gyfer Cynnydd

Rhai dysgwyr yn ffurfio rhifau yn anghywir, maent wedi gwella, ond rhai dal angen ymarfer.



3. **Enghraifft 3: Adran Cyfnod Sylfaen. Blwyddyn 1 / 2.** Gwers dosbarth cyfan. Prynhawn y 5ed o Dachwedd 2019.

Ffocws y wers oedd Dathlu Noson Tân Gwylt.

Gwers cylchdroi oedd y wers yma, gan blethu sgiliau trawsgwricwlaidd i mewn.

Yn ystod y cyflwyniad, defnyddiais fideo ar Youtube o dan gwylt go iawn. Roedd hwn wedi ennyn diddordeb y dysgwyr, ac ysbrydoli nhw i siarad am eu profiadau eu hunain, a chynnal trafodaeth fel dosbarth am ble maen nhw'n mynd i weld y tan gwylt. Mae Campbell a Campbell (2009, t. 11) yn nodi bod cysylltu profiadau

blaenorol yn gallu hybu dysgu ystyrion.
 Roedd y defnydd o'r fideo yn llwyddiannus, a ddysgais o'r wers yma bod hi'n ddefnyddiol i gael adnodd ar ddechrau'r wers i gynnal trafodaeth, neu adeiladu ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr.

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) 15 munud	Cyflwyniad (dysgu uniongyrchol) – gwrando ac edrych ar dân gwyllt ar fideo, gofyn ‘A oes unrhyw un wedi gweld tân gwyllt o’r blaen?’ ‘Sut oeddet ti’n teimlo wrth weld tân gwyllt?’ Darllen stori syml am Noson Tân Gwyllt ar bwerbwynt, a sut i gadw’n ddiogel.	Mae’r dysgwyr yn gwrando a gwylio fideo ac ateb cwestiynnau ar beth ydy’n nhw’n clywed, a sut mae’n nhw’n teimlo.	Video o noson tân gwyllt Stori noson tân gwyllt (Pwerbwynt)

Yn yr aseiniad yma, byddwn yn creu portffolio o waith sy'n adfyfyrion yn feirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgeg ym Mhrofiad Addysgu Proffesiynol 1. Un o'r egwyddorion yw 'Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu'. Yr ail egwyddor yw 'Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer', ar egwyddor a dewiswyd yw 'Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb' (Donaldson, 2015).

Yr ysgol lle addysgwyd ym Mhrofiad Addysgu Proffesiynol 1, yw ysgol gynradd yn Ne Cymru. Mae'r ysgol o dan yr awdurdod lleol, a chaiff ei arsylwi gan Estyn yn 2016 (Estyn, 2016a). Mae'r ysgol yng nghategori gwyrdd, sy'n golygu'r lleiaf o gefnogaeth (Llywodraeth Cymru, 2019a). Mae'r ysgol yn ysgol arloesol, ac yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth ar y cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae ychydig mwy na 300 o ddisgyblion yn yr ysgol, gyda dosbarthiadau pur a chymysg. Y dosbarth a chaiff eu haddysgwyd yw dosbarth cymysg o Flwyddyn 1 a 2. Mae un athro, ac un swyddog dysgu.

Mae'r cwricwlwm addysg yng Nghymru yn trawsnewid dros y blynyddoedd nesaf. Erbyn 2022, fe fydd pob dysgwr yng Nghymru yn dilyn y cwricwlwm newydd. Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi pwyslais mawr ar addysgeg dda a dysgu effeithiol. Mae safonau proffesiynol newydd hefyd wedi cael eu cyflwyno i bawb sy'n gweithio mewn addysg (Llywodraeth Cymru, 2019b). Bwriad y safonau yw i "nodi disgwyliadau clir o ran arferion effeithiol", ac i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Un elfen benodol y cwricwlwm newydd yw hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol. Mae nifer o ymchwiliadau cyson i effaith addysgu a dysgu da, er mae'n anodd diffinio neu fesur (Coe et al, 2014). Yn adroddiad blynyddol, dywedodd Estyn (2017) "Ansawdd yr addysgu yw'r prif ddylanwad ar ba mor dda mae dysgwyr yn dysgu", ac mae Estyn yn cydnabod bod hwn yn agwedd gwan yn addysg ar draws Cymru. Mae Estyn yn awgrymu hyfforddiant datblygiad proffesiynol, ac arweinwyr ysgol i roi ddigon o gyfleoedd i staff (Estyn, 2017).

Mae ymchwil gan Coe et al (2014, t. 2) yn nodi agwedd at ddatblygiad proffesiynol fel un maes o addysgu da. Mae sawl astudiaeth achos ar wefan Estyn am ysgolion yn gwella ansawdd dysgu trwy roi cyfleoedd i staff datblygu yn broffesiynol trwy hyfforddiant. Mae adroddiad ar Ysgol Gyfun Pontarddulais yn dangos ysgol sydd wedi ffocysu ar ddatblygiad proffesiynol er mwyn gwella addysgu a dysgu da (Estyn, 2016b). Mae staff yr ysgol yn arloesol, yn datblygu strategaethau fel ysgol gyfan, ac mae Estyn yn nodi "Mae hyn yn golygu bod addysgu a dysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol" (Estyn, 2016b).

Mae Estyn (2018) yn adrodd bod safonau yn mynd i godi trwy wella addysgu, ac un ffordd fwyaf hawdd o hyrwyddo hwn yw addysgwyr yn dysgu o'i gilydd. Mae ymchwil Estyn (dim dyddiad) yn nodi'r effaith da o greu deialog am addysgu a dysgu da, a'r gefnogaeth o dîm rheoli'r ysgol. Yn ysgol yn y Bontfaen, mae pwyslais enfawr wedi bod ar ddysgu proffesiynol, mae hyn wedi arwain at ddiwylliant o gydweithredu, adfyfyrion ar safonau addysgu a dysgu, ac asesu cyfoedion (Estyn, 2019a). Mae Estyn yn nodi bod safonau'r ysgol wedi codi o ganlyniad i'r gweithdrefnau yma (Estyn, 2019a). Mae ymchwil gan Coe et al (2014, t. 26) yn nodi bod arsylwi gan gyfoedion yn bositif ac yn effeithiol i ddysgu proffesiynol, er hyn, does dim llawer o ddata ar yr effaith ar y dysgwr.

Mae adroddiad Graham Donaldson yn nodi'r pwysigrwydd o addysgu da a'i effaith ar ddysgu (Llywodraeth Cymru, 2015a). Er mwyn gwella pedagogaidd addysgu a dysgu, mae'r cwricwlwm newydd i Gymru wedi cyflwyno deuddeg egwyddor newydd. Yn cynnwys y pedwar diben i ddysgwyr, mae'r cwricwlwm newydd yn mynd i ffocysu ar sut mae addysgwyr yn hyrwyddo'r egwyddorion ar lawr y dosbarth.

Mae adroddiad Donaldson yn pwysleisio taw athrawon yw'r arbenigwyr ar ddulliau addysgu gwahanol, ac yn pwysleisio pedagogaidd da wrth addysgu (Donaldson, 2015, t. 63). Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn awgrymu i blethu'r deuddeg egwyddor i gynllunio ac addysgu, i sicrhau cysylltiad gyda'r cwricwlwm.

"Mae asesu'n rhan hanfodol o ddysgu ac addysgu" (Llywodraeth Cymru, 2015, t. 19). Egwyddor saith yn y ddogfen Ddyfodol Llwyddiannus yw "Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu" (Donaldson, 2015, t. 67). Mae asesu ar gyfer dysgu, neu asesu ffurfiannol, yn deillio o ysgol adeiladaeth, lle'r meddylfryd yw rhoi gyfleoedd i ddysgwyr arloesi mewn sgiliau dysgu, er mwyn iddyn

nhw reoli dysgu yn well (Council for the Curriculum Examinations and Assessment, (CCEA) 2009, t. 1).

Prif bwrpas asesu ar gyfer dysgu yw "...asesu er mwyn pennu'r camau nesaf mewn addysgu a dysgu drwy ganfod a yw plant a phobl ifanc yn gwneud y cynnydd a fwriadwyd..." (Donaldson, 2015, t. 73). Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cynnig arghymhell bod angen "...hyrwyddo'r defnydd o amrywiaeth fawr o dechnegau..." wrth asesu (Donaldson, 2015, t. 74). Mae asesu ar gyfer dysgu yn cynnwys arsylwi, cwestiynnu, cynnig adborth, cydweithio gyda chyfoedion, hunan asesu, ac adfyfyrio, dyma brif elfennau asesu ar gyfer dysgu (Jones, 2005).

Cred Hattie (2012) yw bod addysgu yn fwy effeithiol gydag oedolyn actif, yn lle hwyluswr. Mae asesu ar gyfer dysgu yn creu ffocws o amgylch y rhyngweithiad rhwng yr oedolyn ar ddysgwyr (Black a Wiliam, 1998, t. 2). Dadl Black a Wiliam (1998, t. 2) yw bod angen i oedolyn deall y dysgwr a'i anghenion, er mwyn gallu addasu gwersi a chefnogi'r dysgwr yn eu taith dysgu. Fe weithredwyd hwn yn aml trwy adborth, adborth athro, adborth cyfoedion, a hunan asesu (CCEA, 2009, t. 29). Dyweda Hattie a Yates (2014, t. 66) bod derbyn adborth effeithiol yn medru dangos ffordd ymlaen i'r dysgwr, ac arwain tuag at lwyddiant.

Mae'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn cydnabod bod asesu ar gyfer dysgu yn medru cael eu camddeall (Donaldson, 2015, t. 73). Mae Dyfodol Llwyddiannus yn dweud "Mae'n bwysig bod asesu ffurfiannol yn rhan annatod a naturiol o'r broses addysgu ac nid yn elfen a ychwanegir" (Donaldson, 2015, t. 76). Mae CCEA (2009, t. 19) yn nodi bod addysgwyr da yn gweithredu asesu ar gyfer dysgu yn eithaf naturiol gyda dysgwyr. Mae'n bwysig i ddulliau asesu ffurfiannol dod yn rhan o arfer naturiol athrawon, a chael ei gwreiddio yng ngwersi yn gyson.

Y nawfed egwyddor yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yw "Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfluoedd yn cael eu darparu i'w harfer" (Donaldson, 2015, t. 68). Mae'r ddogfen yn nodi bod angen dysgu ac addysgu trawsgwricwlaidd i fod yn naturiol ac yn ddilys (Donaldson, 2015, t. 68).

Un o brif resymau addysgu yn drawsgwricwlaidd yw plethu nifer o sgiliau sylfaenol i wersi. Mae Barnes (2015, t. 260) yn dweud "The world beyond the classroom is cross-curricular". Mae Timmerman (2017, t. 2) yn dadlau bod angen i ysgolion paratoi dysgwyr am gymhlethdod y byd, ac un ffordd o wneud hwn yw trwy wersi trawsgwricwlaidd sy'n annog sgiliau datrys problem, ac edrych o bersbectif gwahanol. Yn debyg i Timmerman (2017), mae Wilson a Miller (2018, t. 5) yn nodi bod angen i ddysgwyr cystadlu am swyddi yn y byd modern, felly mae angen llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ond hefyd mae angen "...dyfeisgarwch, creadigrwydd a sgiliau rhyngbersonol da" (Wilson a Miller, 2018, t. 5). Mae Dyfodol Llwyddiannus hefyd yn nodi nifer o sgiliau ehangach sydd angen plethu mewn i wersi yn rheolaidd (Donaldson, 2015, t. 42).

Mae Barnes (2015, t. 275) yn nodi bod rhai pryderon yn gallu codi gyda chynllunio trawsgwricwlaidd. Er bod hi'n ymchwil fach, ac yn cydnabod hwn, mae Parker et al (2011) yn trafod am gymhlethdod a'r sialens o gynllunio yn drawsgwricwlaidd. Mae ymchwiliad Parker et al (2011) yn darganfod yr angen am wybodaeth pwnc a sgiliau addysgeg, ond yn cydnabod gwerth a manteision i addysgu yn drawsgwricwlaidd

Mae Barnes (2015, t. 275) yn trafod pwysigrwydd agwedd yr athro, a naws yr amgylchedd tuag at ddefnyddio dull trawsgwricwlaidd, mae Timmerman (2017, t. 3) hefyd yn cytuno bod angen agwedd a diddordeb hyrwyddo gwersi trawsgwricwlaidd. Awgryma Wilson a Miller (2018, t. 5) i ddewis un flaenoriaeth ymhob cyfrifoldeb i ddatblygu ar draws yr ysgol, a chydweithio gyda staff eraill yr ysgol er mwyn gwella safonau.

Egwyddor pump yn nogfen Ddyfodol Lwyddiannus yw "Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb" (Donaldson, 2015, t. 67). Mae mwy o ryddid gyda athrawon ac ysgolion i ymgysylltu a themâu sy'n berthnasol i fywyd eu plant nhw (Donaldson, 2015, t. 67). Mae Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015, t. 14) yn dweud dylai'r cwricwlwm bod "yn berthnasol i anghenion heddiw (unigol, lleol a chenedlaethol)".

Mae Hattie a Yates (2014, t. 114) yn dweud bod hi'n hawsach i adeiladu ar wybodaeth mae'r dysgwr yn adnabod yn barod, yn hytrach na dechrau rhywbeth newydd. Maen nhw'n mynd ymlaen i ddweud bod ein hymennydd yn creu ystyr o'r wybodaeth trwy wneud cysylltiadau (Hattie a Yates, 2014, t. 115).

Mae 'adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol' yn deillio o'r ysgol adeiladaeth, lle mae dysgwyr yn gwneud cysylltiadau trwy profiadau (Dewey, 2008, t. 25). Mae Campbell a Campbell (2009, t. 11) yn nodi "Connecting everyday experiences with classroom topics and intentionally engaging preexisting knowledge with new classroom content can promote meaningful and lasting learning". Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn annog cwricwlwm "...lle y bydd athrawon yn gallu dewis dulliau addysgu a

dysgu sy'n datblygu o gam i gam..." (Donaldson, 2015, t. 67). Wrth ddod i adnabod anghenion a diddordebau'r dysgwyr, fe fydd modd creu themâu a thasgau sy'n adlewyrchu eu diddordebau.

Un ffordd o ennyn diddordeb ac adeiladu ar wybodaeth flaenorol yw defnyddio llais y disgybl i gyd-gynllunio. Mae Estyn yn nodi bod ysgolion yn medru elwa o lais y disgybl trwy wneud penderfyniadau ysgol gyfan ar brofiadau dysgu ac addysgu (Estyn, 2016c). Mae Estyn yn nodi bod cyfraniad dysgwyr yn golygu dysgwyr yn ymrwymo'n fwy llwyddiannus yn eu gwaith (Estyn, 2019b). Mae modd adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol, ac ennyn diddordeb trwy wrando ar ddysgwyr, ac i gynllunio gwersi cyffrous sydd yn ysbrydoli ac o ddiddordeb.

Cyn cychwyn Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) Bloc 1, roeddwn yn ymwybodol o ystyr a goblygiadau asesu ar gyfer dysgu, ac yn eithaf hyderus ar sut i weithredu mewn dosbarth. Er hyn, doedd yr egwyddor yma ddim wedi dod yn naturiol i ddechrau wrth gynllunio, fel mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015, t. 76) a CCEA (2009, t. 19) yn awgrymu. Cymerodd amser i feddwl am sut i weithredu asesu ar gyfer dysgu ar lawr y dosbarth gyda dysgwyr Blwyddyn 1 / 2. Wrth symud i Bloc 2, gobeithio y bydd asesu ar gyfer dysgu yn dod yn fwy naturiol, a bydd cyfle i ddysgu o gyfoedion (Estyn, 2018), ac ehangu ar strategaethau, a chynyddu hyder.

Wrth ddechrau cynllunio asesu ar gyfer dysgu, roedd asesu cyfoedion wedi amlygu fel strategaeth oedd yn gyfleus i wneud gyda dysgwyr ifanc. Teimlwn fy mod i wedi gweithredu nifer o dasgau asesu cyfoedion, gydag ymateb da o ddysgwyr. Fodd bynnag, yn enghraifft 1 a 3, roedd hi'n amlwg bod y dysgwyr yn troi ar ffrindiau er mwyn asesu ei gilydd. Wrth adfyfrio ar y wers, dylwn i wedi meddwl am ffordd o weithredu'r dasg yn fwy teg, er enghraifft gyda ffyn loli fel bod pawb ddim yn dewis ffrindiau. Dyma rywbeth i symud ymlaen gydag yn y bloc nesaf o addysgu.

Defnyddiais ddull hunan asesu er mwyn gweithredu asesu ar gyfer dysgu. Mae tystiolaeth enghreifftiol 2 yn dangos dull hunan asesu i ddysgwyr. Er i mi esbonio ar ddechrau'r wers bod slip hunan asesu i lenwi ar ddiwedd y dasg, roedd rhai dysgwyr wedi drysu ar beth i wneud a sut i ddefnyddio'r slipiau hunan asesu. Mae Black a Wiliam (1998, t. 2) yn nodi'r pwysigrwydd y rhyngweithiad rhwng y dysgwr ar athro. Wrth adfyfrio'r wers, roedd hi'n amlwg bod rhaid i fi roi fwy o arweiniant ar asesu ar gyfer dysgu a'i phwysigrwydd yn y broses dysgu.

Teimlwn fy mod i wedi dechrau defnyddio ychydig o strategaethau gwahanol er mwyn cadw cyffro, a dechrau myfrio ar ddysgu, fel hunan asesu, ac asesu cyfoedion. Yn ystod gwersi, rydw i wedi bod yn defnyddio cwestiynu fel ffordd o weld dealltwriaeth dysgwr, fel gwelwyd yn enghraifft 4. Er hyn, dydw i ddim wedi manteisio digon ar weithredu llawer o strategaethau penodol o fewn y wers, tra bod dysgwyr ar dasg. Rydw i'n dueddol o roi tasg asesu ar gyfer dysgu ar ddiwedd y wers. Mae Donaldson (2015, t. 70) yn dweud prif bwrpas asesu ar gyfer dysgu yw edrych ar y camau nesaf mewn dysgu, er enghraifft, trwy roi adborth effeithiol, fel nodwyd Hattie a Yates (2014, t. 66). Yn ystod y bloc nesaf o addysgu, fe fydd rhaid dechrau gweithredu mwy o strategaethau asesu ar gyfer dysgu o fewn tasgau.

Argymell cyntaf er mwyn gwella addysgu yn bloc 2, yw ymchwilio i fwy o strategaethau sydd yn medru cael eu gweithredu o fewn tasgau, er mwyn hyrwyddo asesu ar gyfer dysgu, fel mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn awgrymu (Donaldson, 2015, t. 74). Ar ail argymell yw esbonio pwrpas asesu ar gyfer dysgu i ddysgwyr, a sut i weithredu'r dasg yn glir.

Yn ystod PAP Bloc 1, rwyf wedi gweithredu nifer o wersi trawsgwricwlaidd ym mlwyddyn 1 / 2. Trwy gydol y profiad, dyma'r gwersi oedd yn achosi pryder i mi, oherwydd mae nifer o elfennau a sgiliau gwahanol yn dod mewn i'r wers. Yn y Cyfnod Sylfaen yn enwedig, mae nifer o dasgau yn cael eu gweithredu a'i gynorthwyo ar yr un pryd, ac mae'r gallu teimlo'n llethol. Yn enghraifft 1, roedd elfennau llythrennedd a rhifedd y wers wedi cymryd amser, a ni allwn gylchdroi fel oeddwn yn disgwyl. Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn nodi bod angen i wersi trawsgwricwlaidd "...i fod yn naturiol ac yn dilyn" (Donaldson, 2015, t. 68). Yn ôl Barnes (2015, t. 275) mae angen datblygu agwedd bositif, felly yn y bloc nesaf o addysgu, byddaf yn ceisio edrych ar drawsgwricwlaidd yn fwy naturiol a phositif.

Erbyn diwedd bloc 1 o addysgu, rwyf wedi dod i ddeall cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd yn well, trwy sgysiau gyda staff, darlithoedd yn y Brifysgol, a chyfarfod gyda mentoriaid proffesiynol. Rydw i wedi dod i ddeall bod elfennau rhifedd a llythrennedd yn gallu dod yn naturiol o fewn gwersi, yn lle cynllunio tasgau penodol. Yn symud ymlaen ym bloc 2, rwyf yn awyddus i weithredu gwersi trawsgwricwlaidd mwy naturiol, a manteisio ar gyfloed i gryfhau sgiliau sylfaenol.

O ganlyniad i'r sgysiau, cynlluniais wers ar ddiwedd bloc 1 a oedd yn fwy ymarferol, gydag elfen llythrennedd yn dod i mewn trwy sgysiau a chwestiynu, enghraifft 3. Teimlaf fod y wers wedi llifo yn well gyda thasg llythrennedd a rhifedd mwy ymarferol, ac roedd y dysgwyr wedi mwynhau. Er hyn, wrth gwestiynu'r dysgwyr ar ddiwedd y wers, roedd pwrpas y wers ddim yn glir i'r dysgwyr. Wrth adfyfrio ar y wers gyda'r mentor dosbarth, roedd hi'n amlwg bod angen ail-gyflwyno prif bwrpas y wers yn gyson.

Prif bwrpas gweithredu gwersi trawsgwricwlaidd yw adeiladu ar sgiliau sylfaenol a pharatoi dysgwyr am y byd go iawn (Timmerman, 2017, t. 2). Un agwedd oedd wedi amlygu yn ystod gwers a ddangoswyd yn enghraifft 2, oedd fy mod i wedi cynllunio elfen ddigidol i'r wers oedd yn mynd i hyrwyddo sgil sylfaenol, sef arbed gwaith ar Ap. Roedd nifer o ddysgwyr wedi drysu, neu heb gyflawni hyn oherwydd cyflwyniad cyflym, ac roedd hi'n elfen newydd o gymhwysedd digidol i'r dysgwyr. Er i mi fodlu sut i wneud, roedd dysgwyr wedi drysu. Mae hyn yn cysylltu gydag ail egwyddor Ddyfodol Lwyddiannus, lle mae angen i athrawon cynllunio heriau, ond o fewn cyrraedd y dysgwr (Donaldson, 2015, t. 64). I wella datblygiad proffesiynol rhaid i mi fyfyrto ar ddisgwyliadau dysgwyr, edrych ar ddysgu a phrofiadau blaenorol, egwyddor pump (Donaldson, 2015, t. 67) a chynllunio o hyn.

Argymhell ar gyfer gwella addysgu yw parhau i wella dealltwriaeth o gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd trwy edrych ar gynlluniau enghreifftiol, ac edrych ar arfer dda o fewn ysgolion, awgrymiad nodwyd gan Estyn (2018). Ail argymhell am wella sgiliau addysgu yw bod yn ymwybodol o gyrhaeddiad dysgwyr, herio nhw, ond hefyd bod yn rhesymol, sef egwyddor addysgeg 2 (Donaldson, 2015, t. 64).

Wrth ddechrau'r wythnos arsylwi am PAP bloc 1, arsylwais ar ddiddordebau'r dysgwyr trwy edrych ar beth oedden nhw'n hoff o chwarae gyda, beth oedden nhw yn siarad am, a pha waith roedden nhw wedi cyflawni hyd yn hyn. Sylweddolais fod y dysgwyr yn hoff o dasgau ymarferol, yn enwedig tasgau adeiladu neu dasgau creu, felly fy mwriad oedd ceisio cynllunio yn ôl eu diddordebau nhw. Mae'r dystiolaeth o adfyfyrto'r gwersi, enghraifft 2 a 3, yn dangos bod y dysgwyr wedi mwynhau, a bod y profiad dysgu wedi bod yn bositif. Mae hyn yn hyrwyddo'r damcaniaeth o Ddyfodol Llwyddiannus, lle mae modd creu gwersi perthnasol ac sy'n edrych ar anghenion nhw (Donaldson, 2015, t. 14).

Yn ôl y theori adeiladaeth (Dewey, 2008, t. 25), mae dysgwyr yn dysgu trwy gysylltu gwybodaeth a phrofiadau i wybodaeth flaenorol. Yn enghraifft 1, cynlluniais wers a oedd wedi adeiladu ar sgiliau roedden nhw wedi dysgu yn yr wythnosau blaenorol, sef bondiau rhif. Cynlluniais dasgau oedd yn ymarferol ac yn hwylus er mwyn ennyn diddordeb y dysgwyr, fel nodir egwyddor pump (Donaldson, 2015, t. 67). Roedd un dasg o fewn y wers lle nad oedd y dysgwyr wedi ymateb fel oeddyn yn disgwyl. Wrth adfyfyrto'r wers, sylweddolais fy mod i wedi ennyn diddordeb trwy ddefnyddio ciwbiau cyswllt, ond efallai roedd angen mwy o reolaeth dros y dasg.

Mae enghraifft 2 hefyd yn dangos fy mod i wedi adeiladu ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr, fel awgryma Hattie a Yates (2014, t. 114). Yn yr wythnos flaenorol, roedd dysgwyr wedi dysgu am nodweddion y Cristingl, ac yna yn fy ngwers i, cawsant gyfle i greu Cristingl. Mae hyn yn hyrwyddo cred Campbell a Campbell (2009, t. 11), sef defnyddio gwybodaeth flaenorol gyda chynnwys newydd er mwyn creu dysgu ystyrlon.

Mae Estyn (2016) yn nodi bod ysgolion ac athrawon yn gallu manteisio o ddefnyddio llais y disgybl. Rydw i yn cydnabod fy mod i ddim wedi manteisio llawer ar ddefnyddio strategaeth llais y disgybl yn ystod bloc 1. Cynlluniais nifer o ddathliadau a oedd wedi amlygu yn ystod yr wythnosau, ac roedd y dysgwyr i weld yn gyffrous o ddysgu am y dathliadau yma. Fodd bynnag, gallwn i wedi cynllunio ffordd o ddefnyddio llais y dysgwyr i gyd-gynllunio, neu i adeiladu ar brofiadau a diddordebau, er mwyn iddyn nhw ymrwymo yn fwy yn y tasgau (Estyn, 2019). Argymhell ar gyfer gwella ym mloc 2, bydd i wneud ymdrech i ddefnyddio strategaethau llais y disgybl er mwyn gyd-gynllunio, a chynllunio tasgau sy'n adlewyrchu diddordebau dysgwyr. Gallwn gyflawni mapiau meddwl er enghraifft, i gynllunio gwaith ar thema benodol.

I grynhoi ar bloc 1 o addysgu, teimlwn fy mod i wedi gweithredu nifer o strategaethau a thasgau gwahanol. Rwyf wedi dysgu llawer a datblygu yn broffesiynol wrth weithredu ac adfyfyrto ar beth sydd wedi gweithio, a sut rydw i'n gallu gwella fy sgiliau dysgu ac addysgu. Rwyf yn glir am beth sydd rhaid i mi wneud er mwyn gwella yn yr egwyddorion yma, ynghyd ag egwyddorion eraill, ac yn bwriadu mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion hyn yn y bloc addysgu nesaf.

Barnes (2015) *An introduction to Cross Curricular Learning*. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/274313611_An_Introduction_to_Cross-Curricular_Learning (Darllenwyd: 18 Rhagfyr 2019).

Black, P., Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box: Raising Standards Through Classroom Assessment*. Ar gael yn: <https://www.rdc.udel.edu/wp-content/uploads/2015/04/InsideBlackBox.pdf> (Darllenwyd: 17 Rhagfyr 2019).

Campbell, L., Campbell, B. (2009) *Mindful Learning: 101 Proven Strategies for Student and Teacher Success*. Ar gael yn: https://www.corwin.com/sites/default/files/upm-binaries/25914_081222_Campbell_Ch1_excerpt.pdf (Darllenwyd: 30 Rhagfyr 2019).

Coe, R., Aloisi C., Higgins, S., Major, L. E. (2014) *What makes great teaching?* Ar gael yn: <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/10/What-makes-great-teaching-FINAL-4.11.14.pdf> (Darllenwyd: 15 Rhagfyr 2019).

Council for the Curriculum Examinations and Assessment (2009) *Assessment for Learning, A Practical Guide*. Ar gael yn: http://ccea.org.uk/sites/default/files/docs/curriculum/assessment/assessment_for_learning/afl_practical_guide.pdf (Darllenwyd: 15 Rhagfyr 2019).

Dewey, J. (2008) *Experience And Education*. Ar gael yn: <https://books.google.co.uk/books?id=JhjPK4FKpCcC&printsec=frontcover&dq=john+dewey+building+on+previous+knowledge&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwjIsqiY8OzmAhVyRBUIHZPhCk8Q6AEIKDAA#v=onepage&q&f=false> (Darllenwyd: 2 Ionawr 2020).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 13 Rhagfyr 2019).

Estyn (2016c) *'Llais y disgybl' o fudd i ddisgyblion ac yn helpu ysgolion i wella*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/'llais-y-disgybl'-o-fudd-i-ddisgyblion-ac-yn-helpu-ysgolion-i-wella?_ga=2.204654034.378726340.1577619610-1327671097.1575324328 (Darllenwyd: 30 Rhagfyr 2019).

Estyn (2016b) *Gyrru gwelliant trwy ddatblygiad proffesiynol*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/gyrru-gwelliant-trwy-ddatblygiad-proffesiynol?_ga=2.231478812.241928937.1577033175-1327671097.1575324328 (Darllenwyd: 17 Rhagfyr 2019).

Estyn (2016a) *Adroddiad Estyn*. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Cynwyd%20Sant%20en.pdf> (Darllenwyd: 2 Hydref 2019).

Estyn (2017) *Angen i arweinwyr addysg ganolbwyntio ar wella addysgu a dysgu*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/angen-i-arweinwyr-addysg-ganolbwyntio-ar-wella-addysgu-dysgu?_ga=2.123186377.392618243.1576423015-1327671097.1575324328 (Darllenwyd: 28 Rhagfyr 2019).

Estyn (2019b) *Defnyddio llais y disgybl i lunio dysgu*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/defnyddio-llais-y-disgybl-i-lunio-dysgu?_ga=2.266046925.378726340.1577619610-1327671097.1575324328 (Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2019).

Estyn (2019a) *Gwella ansawdd addysgu trwy ddysgu proffesiynol*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/gwella-ansawdd-addysgu-trwy-ddysgu-proffesiynol?_ga=2.227815966.241928937.1577033175-1327671097.1575324328 (Darllenwyd: 18 Rhagfyr 2019).

Estyn (dim dyddiad) *Annog athrawon i siarad â'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd*. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/annog-athrawon-i-siarad-â'i-gilydd-dysgu-oddi-wrth-ei-gilydd?_ga=2.239353472.241928937.1577033175-1327671097.1575324328 (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2019).

Estyn (2018) *Gwella addysgu yw'r allwedd i godi safonau mewn ysgolion*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/gwella-addysgu-yw'r-allwedd-i-godi-safonau-mewn-ysgolion>

(Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2019).

Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers Maximizing Impact on Learning*. Ar gael yn: <https://books.google.co.uk/books?id=xY-6MyDgks8C&printsec=frontcover&dq=john+hattie+visible+learning&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwiimuXzgefmaHVGY8AKHUelBuYQ6AEIKDAA#v=onepage&q=john%20hattie%20visible%20learning&f=false> (Darllenwyd: 18 Rhagfyr 2019).

Hattie, J., Yates, G. (2014) *Visible Learning and the Science of How We Learn*. Routledge: Abingdon.

Jones, Dr C. (2005) *assessment for learning* <https://dera.ioe.ac.uk/7800/1/AssessmentforLearning.pdf> (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru (2015) *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf> (Darllenwyd: 30 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru (2019b) *Safonau Proffesiynol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol> (Darllenwyd: 19 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru (2019a) *Fy Ysgol Lleol*. Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6722259?lang=cy> (Darllenwyd: 6 Rhagfyr 2019).

Parker, J., Heywood, D., Jolley, N. (2012) 'Developing pre-service primary teachers' perceptions of cross-curricular teaching through reflection on learning' *Teachers and Teaching*. Vol 18:6, tt. 693-716. Ar gael yn: <https://www.tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1080/13540602.2012.746504> (Darllenwyd: 3 Ionawr 2019).

Timmerman, V. (2017) *Cross-curricular teaching: How does it work*. Ar gael yn: <https://www.ciep.fr/sites/default/files/atoms/files/crosscut-cross-curricular-teaching-how-does-it-work-synthesis.pdf> (Darllenwyd: 20 Rhagfyr 2019).

Wilson, F., Miller J. (2018) *Canllaw ar gyfer Rheoli Newid Cwricwlaid yng Nghymru*. Ar gael yn: https://cdn.oxfordowl.co.uk/2018/11/14/16/22/50/579/bp_welsh_curriculum_change_welsh.pdf (Darllenwyd: 28 Rhagfyr 2019).

Wiliam, D (2017) *Embedded Formative Assessment*. Ar gael yn: <https://ebookcentral-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/lib/trinity/reader.action?docID=5105912&ppg=5> (Darllenwyd: 19 Hydref 2019).